# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 20/01/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Cyllideb yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**C9 Mark Isherwood:** Beth oedd yr ystyriaethau wrth ddyrannu'r gyllideb amgylchedd, cynaliadwyedd a thai? OAQ(3)0937(BB)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Wrth baratoi cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad, cynhaliwyd trafodaethau â Gweinidogion am y blaenoriaethau yn eu portffolios. Y canlyniad ar gyfer portffolio'r amgylchedd, cynaliadwyedd a tai yn ystod 2010-11 yw bod y dyraniad refeniw wedi cynyddu 5.4 y cant o'i gymharu â chyllideb 2009-10.

### Comisiwn Annibynnol Holtham

**C10 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y comisiwn Holtham annibynnol? OAQ(3)0929(BB)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cyfarfod â'r cadeirydd ac â'i gydweithwyr yn y comisiwn. Mae achos cryf llawn perswâd wedi'i gyflwyno gan y comisiwn dros ddiwygio'r dull o'n hariannu, a chryfhau'r strwythurau sy'n greiddiol i ddatganoli.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2010

**C11 Angela Burns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer 2010? OAQ(3)0932(BB)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 ym mis Rhagfyr 2009. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wasanaethau cyhoeddus o safon i bobl Cymru, ac i helpu Cymru i ddod drwy'r dirwasgiad economaidd. Drwy ein pwyslais ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gallwn barhau i ddatblygu agenda 'Cymru'n Un'.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)0941(BB), yn ôl.*
*Question 12, OAQ(3)0941(BB), was withdrawn.*

### Gwerth am Arian a Gwario'n Effeithlon

**C13 David Melding:** Sut mae'r Gweinidog yn pennu'r arfer gorau presennol a chadernid y mesurau sydd ar waith i sicrhau gwerth am arian a bod arian yn cael ei wario'n effeithlon ar draws cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0924(BB)

**Jane Hutt:** Mae'r ddyletswydd i ddiogelu cyllid cyhoeddus wrth wraidd holl wariant Llywodraeth y Cynulliad. Yr ydym wedi ymrwymo i reoli'r holl adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol er budd y cyhoedd, ac i adolygu ein cynlluniau gwariant yn rheolaidd.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)0934(BB), yn ôl.*
*Question 14, OAQ(3)0934(BB),was withdrawn.*

### Pwysau Cyllidebol

**C15 Andrew R.T. Davies:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y pwysau cyllidebol yn y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(3)0945(BB)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac â'm holl gydweithwyr yn y Cabinet ynghylch yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Gwarchod Treftadaeth Cymru

**C11 Angela Burns:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwarchod treftadaeth Cymru? OAQ(3)1004(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae fy natganiad strategol ar yr amgylchedd hanesyddol yn cynnwys amrywiol gamau i ddiogelu treftadaeth unigryw Cymru. Fy mlaenoriaeth yw cael amgylchedd hanesyddol hygyrch, wedi'i ddiogelu'n dda, drwy brosesau dynodi a chydsynio strategol, rhaglenni ariannu, cyngor a chanllawiau, gweithio mewn partneriaeth o fewn a thu allan i Lywodraeth y Cynulliad, ynghyd â mentrau a mesurau eraill.

### Hyrwyddo Treftadaeth

**C12 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo treftadaeth yng Nghymru? OAQ(3)1029(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae fy natganiad strategol ar yr amgylchedd hanesyddol yn adeiladu ar y flaenoriaeth sydd wedi'i rhoi yng nghytundeb 'Cymru'n Un' i hybu ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn nhreftadaeth Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid wedi lansio nifer o fentrau i ennyn diddordeb ein cymunedau yn eu treftadaeth, er budd pobl leol a thwristiaeth.

### Cymdeithas Bêl-droed Cymru

**C13 Ann Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru? OAQ(3)1001(HER)

**Alun Ffred Jones:** Cefais gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Bêl-droed Cymru yr wythnos diwethaf i drafod materion darlledu sy'n gysylltiedig â gwasanaethau am ddim.

### Lefelau Twristiaeth

**C14 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ba drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Trysorlys o ran yr effaith ar lefelau twristiaeth yng Nghymru yn sgîl y newidiadau mewn treth i berchnogion sy'n gosod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu? OAQ(3)1009(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf wedi ysgrifennu at y Trysorlys i fynegi fy mhryderon ynghylch yr effaith bosibl ar fusnesau twristiaeth yng Nghymru, ac mae Cynghrair Twristiaeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant i ymateb i'r asesiad effaith y mae'r Trysorlys yn ei gynnal ar hyn o bryd.

**Twristiaeth yng Ngogledd Cymru**

**C15 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd twristiaeth i ardal y gogledd? OAQ(3)1030(HER)

**Alun Ffred Jones:** Y gogledd yw un o'n cyrchfannau twristiaeth mwyaf poblogaidd, ac, i adlewyrchu hyny, mae'n derbyn y lefel uchaf o gyllid twristiaeth rhanbarthol yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr y bydd statws safle treftadaeth y byd traphont ddŵr Pontcysyllte, ynghyd ag 11 milltir o gamlas Llangollen, yn denu hyd yn oed mwy o ymwelwyr i'r ardal.